



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Gweithredu: Blwyddyn 1: 2020-2021

Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant ar
Cyfer Penodiadau Cyhoeddus yng Nghymru

*“Mae pethau bob amser yn ymddangos
yn amhosib tan iddynt gael eu gwneud”*

– Nelson Mandela





Nod 1: Casglu a rhannu data

Pwrpas: Casglu a rhannu data meintiol ac ansoddol cyson a dibynadwy wedi'u rhannu'n nodweddion allweddol ac sy'n ymwneud â phoblogaethau ffynhonnell, y rheini sy'n ymgeisio i Fyrddau, y rheini sy'n cael eu penodi, y rheini sy'n cael eu cadw ac, yn bwysicaf oll, profiad pobl o eistedd ar Fwrdd ar ôl cael eu penodi.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
1	Casglu data gan holl aelodau presennol Byrddau Cymru i sefydlu llinell sylfaen er mwyn dylanwadu ar gamau gweithredu yn y dyfodol.				
a	Gofyn i holl aelodau presennol Byrddau am wybodaeth am eu statws, gan egluro'n glir pam bydd hyn yn arwain at ragor o dryloywder a didwylledd. Cyflwyno adroddiadau i Weinidogion ar y data yn ôl Bwrdd ac yn gyffredinol ar draws pob Bwrdd.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus gyda'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, a Chadeiryddion	Ionawr – Mawrth 2020		Data monitro sylfaenol ar Fyrddau presennol yn cael eu casglu a'u rhannu â Gweinidogion ac uwch arweinwyr.
b	Cytuno ag Adnoddau Dynol beth gall y system Penodi newydd ei gynnig yn ddefnyddiol i gofnodi'r holl ddata sydd eu hangen ar gyfer penodi.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ac Adnoddau Dynol	Erbyn Mehefin 2020		Wedi cytuno ar ffordd ymlaen ac ar yr adnoddau ar gyfer rheoli data
2	Sefydlu system gadarn ar gyfer casglu data ar wahanol grwpiau gwarchodedig ar Fyrddau; cynnwys grwpiau economaidd-gymdeithasol, gallu ieithyddol, a lleoliad daearyddol.				
a	Casglu gwybodaeth gan bartneriaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth y DU, sefydliadau cydraddoldeb a Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru i nodi sut gallwn ddatblygu, ar y cyd, un system i gofnodi a monitro data ar y cyflenwad cyson ar gyfer penodiadau cyhoeddus.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus, CGGC a phartneriaid allweddol	Erbyn Mawrth 2020		Angen safbwynt cyffredin o ran y data sydd eu hangen, a rhestr y cytunir arni gan yr holl bartneriaid.
b	Casglu gwybodaeth gan sefydliadau cydraddoldeb allweddol am y derminoleg y mae'n well ganddynt ei defnyddio ar ffurflenni monitro. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i namau anweladwy ac yn sgil yr amheuan a godwyd ynglŷn â therminoleg 'BAME'.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus gyda sefydliadau anabledd, Stonewall Cymru, sefydliadau cysylltiedig â hil, a'r Comisiwn Hawliau Dynol, yn ogystal â CGGC a Chomisiynydd y DU.	Erbyn Mawrth 2020		Safbwynt y cytunir arno o ran pa ddata monitro sydd eu hangen ac sy'n cael eu casglu.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
c	Cytuno ar ddangosyddion dirprwyol ar gyfer grwpiau economaidd-gymdeithasol a'u defnyddio wrth gasglu data yn y dyfodol.	Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus.	Erbyn Mawrth 2020		Cytuno ar y dangosyddion ar gyfer grwpiau economaidd-gymdeithasol.
d	Ar ôl casglu gwybodaeth, sefydlu system ar gyfer casglu data ar yr holl grwpiau gwarchodedig, gan gynnwys cefndir economaidd-gymdeithasol, a gwneud yn siŵr bod adroddiadau ar 'groestoriadau' ar y system. Gwneud yn siŵr bod hyn yn addas i Gyrff Cyhoeddus sy'n cael eu rheoleiddio ac nad ydynt yn cael eu rheoleiddio, ac i elusennau.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus gyda Chomisiynydd y DU, CGGC, y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, y Comisiwn Hawliau Dynol a'r Comisiwn Elusennau.	Erbyn Mehefin 2020		Wedi llunio rhestr y cytunir arni o'r data a'r cwmpas, a'r data hynny'n cael eu casglu.

3

Gweithio gyda sefydliadau anabledd i nodi a gweithredu ffyrdd i bobl hunan-adrodd ar eu statws â mwy o hyder.

a	Llywodraeth Cymru i wneud ymchwil i archwilio'r ffyrdd o gyfathrebu negeseuon ar gyfryngau cymdeithasol a gwefan y Llywodraeth am werth hunan-adrodd ac arfer yr 'hawl i gyfweliad'. Cyflwyno'r negeseuon ym mhob cyfathrebiad.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i gomisiynu'n fewnol drwy'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, neu Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i wneud ymchwil ddesg.	Erbyn Medi 2020		Negeseuon cryf am werth hunan-adrodd a'r hawl i gyfweliad wedi'u cynnwys mewn cyhoeddusrwydd a'r holl gyfathrebiadau.
b	Hysbysebu'n eang ar y gwefannau lle mae Llywodraeth Cymru'n hysbysebu penodiadau cyhoeddus.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a phartneriaid allweddol i gysylltu gwybodaeth er mwyn i'r cyhoedd allu chwilio am wybodaeth o lawer o wahanol ffynonellau.	Parhaus		Lleoliad ar gyfer chwilio am wybodaeth am benodiadau Bwrdd yn dra chyfarwydd i bawb sydd â diddordeb mewn penodiadau Bwrdd.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
4	Comisiynu gwaith gwerthuso a monitro parhaus, gan ddefnyddio data meintiol ac ansoddol, ar wahanol agweddau ar y cynnydd a wnaed. Cyflwyno adroddiad blynyddol ar ganfyddiadau.				
a	Nodi'r canlyniadau allweddol sydd eu hangen i fonitro, i werthuso ac i ddysgu. Dilyn hyn drwy gaffael fframwaith gwerthuso a monitro.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i gaffael ar y cyd â'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a Chadeiryddion.	Erbyn Ebrill 2020		Fframwaith gwerthuso, monitro a dysgu wedi'i gaffael, a chytundeb o ran pa ddata sydd eu hangen a phryd.
b	Gwerthuswyr i gynnal cyfweiliadau â gwahanol haenau arweinyddiaeth yn y system benodi a gyda gwahanol grwpiau gwarchodedig, er mwyn casglu data ansoddol ar eu profiadau uniongyrchol o'r system benodi.	Gwerthuswyr	Ebrill 2021		Data ansoddol ar brofiadau uniongyrchol o gyfranogiad ar Fyrddau yn cael eu casglu a'u rhannu â'r Bwrdd Llywodraethu.
5	Wrth i'r data wella, Llywodraeth Cymru i ymgynghori ar dargedau cyffredinol ac, os dymunir, eu gosod ar draws yr holl Fyrddau yng Nghymru ar gyfer pobl anabl, BAME, LHDT+, pobl ifanc, a grwpiau economaidd-gymdeithasol, gan gydnabod bod gan Fyrddau unigol wahanol ofynion penodol.				
a	Gwneud yn siŵr bod y Gweinidog yn cael cyngor ar y cyfleoedd a'r heriau o ran gosod targedau cyffredinol ar gyfer grwpiau anabl a BAME (ac ar gyfer grwpiau eraill yn nes ymlaen).	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i roi cyngor i Weinidogion gyda chymorth gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi.	Mehefin 2021		Gweinidogion yn cael cyngor da ar ddata monitro sylfaenol i ategu penderfyniadau ynghylch unrhyw dargedau newydd maen nhw'n dymuno eu gosod.
b	Pan fydd yn cael cyngor gan swyddogion, y Gweinidog i ystyried ymgynghori ar osod targedau ar gyfer gwahanol grwpiau gwarchodedig.	Y Gweinidog gyda chynghor gan y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi.	Gorffennaf 2021		Y Gweinidog i deimlo bod ganddo'r wybodaeth ddiweddaraf ac i gytuno ar broses ymgynghori ynghylch gosod targedau os bydd yn dymuno gwneud hynny.
c	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i gyhoeddi, yn flynyddol, data y cytunir arnynt ar gyfer (a) yr holl Fyrddau a (b) Byrddau unigol ar y wefan Penodiadau Cyhoeddus.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus gyda chymorth gan y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi a gwerthuswyr allanol	Yn flynyddol gan ddechrau yn Ebrill 2021		Data ar wahanol grwpiau gwarchodedig ar Fyrddau unigol ac ar draws yr holl Fyrddau ar gael yn agored ar wefan Llywodraeth Cymru





Nod 2: Sicrhau cyflenwad cyson, cadarn

Pwrpas: Creu cyflenwad cyson, cadarn o ddarpar aelodau Bwrdd drwy wneud pobl yn fwy ymwybodol o Fyrddau Cyhoeddus, denu talent newydd, a chefnogi pawb sydd â diddordeb mewn bod yn aelodau o Fwrdd.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
1	Llywodraeth Cymru i gomisiynu, gyda chymorth Cadeiryddion a sefydliadau cydraddoldeb allweddol, rhaglen arweinyddiaeth lefel uchel i ddatblygu pobl i eistedd ar Fyrddau, yn enwedig i bobl anabl a BAME sydd bron yn barod i wneud cais.				
a	Gyda chymorth Cadeiryddion a sefydliadau cydraddoldeb allweddol, comisiynu rhaglen arweinyddiaeth lefel uchel i arweinwyr profiadol o grwpiau anabl a BAME sy'n barod i fod yn aelodau o Fwrdd neu i ymgymryd â rolau Cadeirydd. Gweithio gyda sefydliadau cydraddoldeb ac asiantaethau recriwtio i nodi unigolion allweddol a ddylai ymgeisio am leoedd.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i nodi'r comisiwn ar ôl mapio'r cyrsiau da sydd ar gael ac yn addas i bobl anabl a'r rheini o grwpiau BAME – gwneud hyn mewn partneriaeth â Chadeiryddion, sefydliadau cydraddoldeb allweddol, y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Gwerthuswyr allanol i gefnogi'r gwaith gwerthuso. Gwahodd Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru i wneud ymchwil ddesg – mapio. Gwerthuswyr allanol i gefnogi'r gwaith gwerthuso.	Rhedeg y cyrsiau rhwng Medi 2020 a Medi 2021	30 (15 o bobl anabl a 15 BAME)	30 o uwch arweinwyr anabl a BAME yn barod i ymgeisio i Fyrddau (rolau anweithredol a rolau Cadeirydd) erbyn canol 2021
2	Adeiladu ar fodelau llwyddiannus presennol i gyd-ddylunio, comisiynu a darparu rhaglen brentisiaeth, a hynny yn y lle cyntaf i bobl anabl a BAME sydd â diddordeb a photensial, ond nad ydynt yn barod i wneud cais eto.				
a	Gyda Chadeiryddion a phartneriaid allweddol, cyd-ddylunio a chomisiynu rhaglen brentisiaeth i bobl â photensial sy'n fodlon cyflawni amrywiaeth o weithgareddau – cyrsiau, mentora, arsylwi ar Fyrddau, cysgodi ac ati dros gyfnod. Ym mlwyddyn dau, ymestyn hyn i grwpiau gwarchodedig eraill.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus gyda Chadeiryddion, Academi Wales a sefydliadau cydraddoldeb. Gwerthuswyr allanol i gefnogi'r gwaith gwerthuso.	Dechrau Medi 2020-2022 i garfan 1 Dechrau Medi 2021-23 i garfan 2	Carfan 1: 30 (15 o bobl anabl a 15 BAME ar gyfer rhaglen flwyddyn) Carfan 2: 30 o bobl LHDT+ a grwpiau targed eraill	30 o unigolion anabl a BAME yn teimlo'n hyderus ac yn gymwys i ymgeisio am le ar Fyrddau erbyn Medi 2022, a grwpiau gwarchodedig eraill erbyn 2023

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
b	Hyrwyddo rhaglenni dysgu a datblygu da sy'n bodoli'n barod ac yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i grwpiau gwarchodedig gynyddu eu hyder a'u cymhwysedd i ymgeisio am le ar Fyrddau. Cynnwys sefydliadau cydraddoldeb sy'n bodoli'n barod ac yn darparu gweithgareddau mentora ymysg eraill.	Pawb yn rhan o'r gwaith o gefnogi datblygiad Byrddau newydd a rhai sy'n bodoli'n barod. Llywodraeth Cymru i ddarparu'r holl wybodaeth ar un wefan.			
3	Cyddylunio gwasanaeth un stop sy'n cynnwys adnoddau a chyfleoedd datblygu, er mwyn datblygu'r cyflenwad cyson ar gyfer penodiadau cyhoeddus sydd ar gael ledled Cymru gan gynnwys mentora, cysgodi a diwrnodau agored, a dulliau gwneud cais prydlon i'r rhai sy'n barod.				
a	Cyddylunio fframwaith un stop, gan gynnwys gwefan un stop, adnoddau a chyfleoedd datblygu a fydd ar gael ledled Cymru i'r holl grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus mewn partneriaeth â CGGC, sefydliadau cydraddoldeb, Plant yng Nghymru ac ati.	Gorffennaf – Rhagfyr 2020		



Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
b	Datblygu system gyfeirio ar gyfer asiantaethau allweddol sy'n cynnig cyfleoedd hyfforddi a datblygu i Fyrddau Cyhoeddus, a hwyluso Byrddau i fanteisio ar y cynigion er mwyn arsylwi, hyfforddi, mentora, mentora o chwith ac ati.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus mewn partneriaeth â sefydliadau cydraddoldeb ac eraill.	Ebrill – Gorffennaf 2020		
c	Cynnig grant interim am ddwy flynedd i Anabledd Cymru i gefnogi gwaith mentora i bobl anabl.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i sicrhau'r grant i Anabledd Cymru.	Erbyn Ebrill 2020		Cynnig mentora pwrpasol i bobl anabl.
4	Gweithio gyda Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) i nodi sut gellir cysoni proses recriwtio ymddiriedolwyr y trydydd sector (sy'n dameidiog ar hyn o bryd) â phroses Cyrff Cyhoeddus.				
a	Gweithio gyda CGGC i nodi sut gallai prosesau recriwtio'r sector elusennol, o ran recriwtio ymddiriedolwyr i fyrddau elusennau, gael eu cysoni â gwaith Cyrff Cyhoeddus er mwyn galluogi mynediad dwyffordd i dalent bosibl.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i nodi asiantaethau allweddol a chydweithio â nhw.	Mawrth 2020		
5	Adeiladu ar adnoddau datblygu presennol Academi Wales, ee Rhaglen Gynefino Aelodau Annibynnol a Chanllawiau Llywodraethu, a'r adnoddau sydd ar gael i Fyrddau Iechyd ac i'r holl Fyrddau – Byrddau Iechyd a Chyrff Hyd Braich, gan gynnwys Byrddau sy'n cael eu rheoleiddio a Byrddau nad ydynt yn cael eu rheoleiddio.				
a	Gweithio gyda'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus i addasu adnoddau presennol (canllawiau, ymyriadau dysgu a datblygu ac ati) ar gyfer Byrddau Iechyd a Chyrff Hyd Braich.	Academi Wales mewn partneriaeth â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus.	Ebrill 2020		Adnoddau presennol yn cael eu haddasu i'w defnyddio'n ehangach.
b	Nodi arferion da o ran recriwtio a chefnogi gwaith Byrddau, a chefnogi'r gwaith o dynnu sylw at hyn.	Ysgrifenyddion Byrddau gyda'r Grŵp Arweinwyr Cyhoeddus.	Parhaus		Galluogi dysgu ar y cyd.





Nod 3: Sicrhau arferion recriwtio agored a thryloyw

Pwrpas: Datblygu, profi a sefydlu prosesau ac arferion recriwtio newydd sy'n gynhwysol, yn agored, yn dryloyw, ac yn cyrraedd yr holl grwpiau gwarchodedig ledled Cymru.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
1	Gwneud yn siŵr bod olynydd system "Penodi" Llywodraeth Cymru'n ennyn diddordeb, yn hysbysebu swyddi gwag, yn cynnwys adnoddau, ac yn cefnogi ceisiadau o bob rhan o gymdeithas. Archwilio'r potensial i ymestyn y Porth Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru er mwyn ehangu'r mynediad i grwpiau eraill.				
a	Gweithio gydag adran Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru i nodi prif gyfyngiadau a chyfleoedd y system 'Penodi' bresennol.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ac Adnoddau Dynol i Lywodraeth Cymru.	Chwefror 2020 – Chwefror 2022		
b	Adolygu'r arferion gorau o ran rhannu gwybodaeth, gan ystyried targedu gwahanol grwpiau a sut mae hyn yn gysylltiedig â gwaith allgymorth a'r asiantaethau sy'n gweithio ar lawr gwlad; asesu a yw'r system 'Penodi' yn gallu cyflawni hyn.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ac Adnoddau Dynol i Lywodraeth Cymru.	Ebrill – Medi 2020		Yr arferion gorau o ran rhannu gwybodaeth wedi'u gwreiddio ar draws gwahanol sectorau.
c	Ystyried sut gellir gwella a gweithredu'r gwahoddiad presennol i'r "Gronfa Dalentau" gyda gwybodaeth am statws a'r lefel sgiliau presennol.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus	Chwefror 2019		Y ddolen "Cronfa Dalentau" yn cael ei defnyddio'n llawn
d	Nodi sut gellir cysylltu'r wybodaeth ar wefan Llywodraeth Cymru â'r cyhoedd, â sefydliadau trydydd sector ac â sefydliadau cyhoeddus, ee gwefan wirfoddoli CGGC, gwefannau cydraddoldeb Prifysgolion, y Comisiwn Hawliau Dynol a Chydraddoldeb, Hawliau Anabledd, amrywiol sefydliadau sy'n gysylltiedig â hil, Stonewall Cymru ac eraill, a chynnig cymaint o wybodaeth â phosibl.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus gyda sefydliadau partner o bob sector.	Medi 2020		Cyfleuster cysylltiedig sy'n cael ei ddiweddarau ar waith i hysbysebu penodiadau cyhoeddus ar wefannau allweddol ar draws gwahanol sectorau.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
e	Archwilio'r potensial i ymestyn ac ehangu'r Porth Menywod mewn Bywyd Cyhoeddus i gynnwys yr holl grwpiau gwarchodedig.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus	Erbyn Mawrth 2020		Wedi archwilio'r potensial i gael un porth, a'i wireddu os oes modd.
f	Datblygu adnodd ar-lein i gasglu adborth gan y cyhoedd am y cyflenwad gwybodaeth, y broses ymgeisio, y broses cyfweiliadau, adborth ar ôl cyfweiliadau, a phrofiad pobl o wasanaethu ar Fyrddau.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a chyd-weithwyr o adran Adnoddau Dynol Llywodraeth Cymru.	Erbyn Rhagfyr 2020		Mae dull o gasglu adborth ar bob elfen o'r system benodi ar waith, ac mae'n arwain at ddata defnyddiol.
2	Recriwtio carfan newydd o aelodau panel penodi annibynnol a'u hyfforddi ochr yn ochr â Chadeiryddion a gweision sifil allweddol, gan ddefnyddio dulliau recriwtio cyfoes a ffyrdd o herio rhagfarn ddjarwybod a recriwtio gwael.				
a	Egluro'r diffiniad o "aelodau panel annibynnol" a'u rôl, a datblygu ac ymgynghori ar ddisgrifiad swydd a manyleb person newydd ar gyfer aelodau panel annibynnol.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus, Cadeirydd arweiniol, uwch weision sifil ac arweinwyr profiadol o grwpiau gwarchodedig i nodi'r meini prawf allweddol ac ymgynghori â Chomisiynydd y DU, Cadeiryddion, uwch weision sifil sy'n debygol o fod ar Baneli, a'r Gweinidog.	Ionawr – Chwefror 2020		Eglurder ynglŷn â rôl aelodau panel annibynnol, a'r holl randdeiliaid yn ei deall.
b	Cytuno ar sawl aelod panel annibynnol sydd ei angen, hysbysebu a rhannu'r rhestr fer â'r ddau Weinidog.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a'r Cadeirydd arweiniol.	Chwefror 2020		Cronfa ddigonol o aelodau panel annibynnol wedi'i sicrhau.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
c	Comisiynu a darparu hyfforddiant recriwtio sy'n sensitif o ran amrywiaeth, gan gynnwys rhoi adborth seiliedig ar gryfderau, i'r garfan newydd o aelodau panel annibynnol, uwch weision sifil perthnasol, aelodau o'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus, a Chadeiryddion.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i nodi cyfranogwyr allweddol a fyddai'n elwa ar hyfforddiant. Comisiynu, cefnogi a gwerthuso hyfforddiant, gan gynnig adborth parhaus i hyfforddwyr. Gwerthuswyr allanol yn helpu i werthuso.	Ebrill – Medi 2019		Aelodau panel allweddol wedi cael hyfforddiant ar arferion recriwtio da.
3	Cynnal adolygiad o'r dechrau i'r diwedd o'r prosesau penodi cyfredol a threialu ffyrdd newydd a chyfoes o hysbysebu i grwpiau penodol, cyflwyno ceisiadau, cyfweld a darparu adborth, gan roi cynnig ar wahanol ddulliau.				
a	Cyd-ddylunio gwahanol ddulliau o hysbysebu, ysgrifennu ceisiadau, cyfweld a rhoi adborth, a threialu'r dulliau hyn a chael adborth cwsmeriaid arnynt. Treialu o leiaf tri dull gwahanol, gan ddefnyddio 12 penodiad yn ystod y flwyddyn gyntaf. Gweithio gyda'r system "Penodi" i nodi a oes modd cysylltu adborth ar-lein yn ystod gwahanol gamau o'r broses recriwtio ag adborth arall. Datblygu negeseuon clir am hunan-adrodd a'r hawl i ddefnyddio cyfleusterau cyfweld hygyrch sy'n gysylltiedig ag anabledd. Gallai'r gwahanol ddulliau gynnwys ceisiadau di-enw, cyfweliadau seiliedig ar sefyllfaoedd, ymarferion grŵp ac adnoddau ar-lein. Dylai pob un fod yn gynhwysol. Rhoi adborth ar ffurf gwerthusiad o'r treialon i'r Grŵp Uwch Arweinwyr Cyhoeddus ar gyfer dysgu a gwella ar y cyd.	Cadeiryddion, ysgrifenyddion Bwrdd a'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus. System "Penodi" Llywodraeth Cymru. Adborth a thrafodaeth yng nghyfarfodydd ysgrifenyddion Bwrdd, Uwch Arweinwyr a Chadeiryddion.	Ionawr – Rhagfyr 2019		Wedi defnyddio 12 penodiad i brofi gwahanol ddulliau o recriwtio a chyfweld, ac wedi cytuno ar fodel newydd i'w ddefnyddio yn y dyfodol.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
b	Ar ôl rhoi cynnig ar wahanol ddulliau o hysbysebu, llenwi ceisiadau, cyfweld a rhoi adborth, datblygu canllawiau arferion da i baneli penodi eu defnyddio.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i roi hyn ar waith.	Rhagfyr 2020		Canllawiau arferion da ar gyfer recriwtio i Fyrddau ar waith ac yn cynorthwyo aelodau panel.
c	Nodi asiantaethau recriwtio sydd â hanes o recriwtio ymgeiswyr amrywiol, a gwneud yn siŵr bod hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn frwd wrth galon eu dull gweithredu.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a Chadeiryddion Bwrdd.	Parhaus		Asiantaethau recriwtio yn deall yr angen i recriwtio pobl o gefndiroedd amrywiol.
d	Gwneud yn siŵr bod y Canllawiau'n mynnu bod cyfwelwyr yn cynnig 'addasiadau rhesymol' i ymgeiswyr anabl, er mwyn eu galluogi i deimlo eu bod yn gallu gofyn am addasiadau o'r fath.	Cadeiryddion, aelodau panel a'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus.	Parhaus		Gofynion pobl anabl o ran addasiadau'n cael eu bodloni.
4	Datblygu dulliau ar gyfer rhoi adborth rheolaidd seiliedig ar gryfderau i'r holl ymgeiswyr, a sicrhau dysgu parhaus yn deillio o'u hadborth.				
a	Datblygu dull seiliedig ar gryfderau a datblygu o roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a Chadeiryddion Paneli	Parhaus		Mae ymgeiswyr aflwyddiannus yn teimlo'n glir ac yn rymus ynghylch eu hanghenion datblygu i'r dyfodol, beth mae angen iddynt wneud nesaf i ailymgeisio, neu pam nad yw rôl ar Fwrdd o fewn eu cyrraedd ar y pryd o bosibl.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
5	Cyflymu gwaith allgymorth a datblygu strategaeth cyfathrebu ac allgymorth sy'n addas i Gymru gyfan.				
a	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i (a) cynnal momentwm y gwaith allgymorth sydd wedi'i wneud yn barod a'r gwaith ar ymuno â phartneriaid, a (b) datblygu dulliau o gofnodi diddordeb darpar ymgeiswyr os nad yw gwybodaeth y Gronfa Dalentau ar y wefan yn gweithio.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a phartneriaid.	Parhaus		Dull clir ar waith ar gyfer cysylltu'r rheini sy'n cofrestru ar y Gronfa Dalentau â Byrddau a sefydliadau datblygu. Gwaith allgymorth yn cael ei gyflymu gan Lywodraeth Cymru a phartneriaid.
b	Cynnull cyfarfod o bawb sy'n rhan o'r gwaith allgymorth (Llywodraeth Cymru a chyrff allanol) a chytuno ar sut gellir gwneud y gwaith allgymorth ar gyfer penodiadau Bwrdd yn fwy effeithlon.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i arwain.	Ebrill 2020		Yr holl bartneriaid yn glir ynghylch y gwahanol ddulliau atgyfeirio a chyfnewid ar gyfer cysylltu talent bosibl â chyfleoedd datblygu.
c	Cyd-ddylunio fframwaith allgymorth sy'n gwneud yn siŵr bod grwpiau amrywiol o bobl yn cael eu cyrraedd yn unol â'u gwahanol anghenion, a chael ymateb cydgysylltiedig gan ddarpar ymgeiswyr ym mhob rhan o Gymru. Gwneud yn siŵr bod unigolion o bob cefndir yn cael cymorth i ymuno â'r llwybr penodiadau cyhoeddus.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ac arweinwyr o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector.	Ebrill – Awst 2020		Gwahanol grwpiau gwarchodedig yn fodlon eu bod yn cael eu cyrraedd yn y ffordd fwyaf addas iddynt, dim ots ble maen nhw nac ym mha sector maen nhw



= Nod 4: Sicrhau ymrwymiad Byrddau

Pwrpas: Gwneud yn siŵr bod yr holl aelodau Bwrdd yn llawn gwybodaeth am gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon yn fedrus, yn gyfrifol am eu rhagfarn ddjarwybod eu hunain, ac yn cymryd yr awenau'n frwd mewn cysylltiad ag amrywiaeth a chynhwysiant.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
1	Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi a datblygu i Fyrddau ar amrywiaeth, cynhwysiant, gwerth profiadau uniongyrchol, a deddfwriaeth, a hynny fel cynnig i grwpiau ac fel dewis ar gyfer datblygiad personol.				
a	Byrddau fel grŵp cyfan yn cael cynnig hyfforddiant penodol i edrych ar amrywiaeth a rhagfarn ddjarwybod, yn ogystal â modiwlau dewisol ar bynciau fel deall y dulliau deddfwriaethol ar gyfer cydraddoldeb a hawliau dynol (gweithredu cadarnhaol, hawl i gyfweliad ac ati), rhagfarn ddjarwybod sy'n seiliedig ar sefyllfaoedd, y model cymdeithasol o anabledd, a herio rhagfarn ddjarwybod ynddynt eu hunain a phobl eraill.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i gomisiynu, cefnogi a gwerthuso 1. Fframwaith hyfforddi i Fyrddau cyfan 2. Modiwlau ar elfennau o gydraddoldeb a hawliau dynol, ee deddfwriaeth, y model cymdeithasol o anabledd, herio anghydraddoldeb a rhagfarn ddjarwybod ac ati.	Comisiynu Mai – Mehefin 2020		Aelodau Bwrdd yn teimlo eu bod yn deall eu rhagfarn ddjarwybod eu hunain, beth mae'r deddfwriaeth yn ei gynnig a sut gall rhagfarn ddjarwybod, yn ymarferol, eithrio neu ormesu pobl, neu wneud iddynt deimlo'n ddiymadferth.
2	Darparu hyfforddiant ar amrywiaeth a chynhwysiant i'r holl aelodau Bwrdd newydd ac archwilio system "cyfeillio", lle gall aelodau Bwrdd â mwy o brofiad fynd yn bâr ag aelodau Bwrdd mwy newydd er mwyn helpu i wella eu sgiliau mewn cysylltiad â materion bwrdd a materion strategol.				
a		Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a Chadeiryddion i gomisiynu a chyd-drefnu hyfforddiant.	Comisiynu Mai – Mehefin 2020 a chyflawni wrth i nifer yr aelodau Bwrdd newydd gynyddu.		Aelodau Bwrdd newydd yn deall rhagfarn ddjarwybod ac yn gweithredu'n briodol mewn cyfarfodydd Bwrdd.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
3	Helpu aelodau Bwrdd o grwpiau gwarchodedig i greu eu rhwydweithiau cymorth, dysgu a datblygu eu hunain.				
a	Aelodau Bwrdd o grwpiau gwarchodedig i gael eu gwahodd i gyfarfod cychwynnol er mwyn trafod y cynnig a fframio nodau ac amcanion eu rhwydwaith, gan gynnwys eu hanghenion hyfforddi a datblygu.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i gynnull y cyfarfod cychwynnol a chael cyfraniad gan Gadeiryddion o ran unrhyw beth maen nhw'n teimlo y byddai o fudd i'r rhwydwaith ei ddarparu.	Cyfarfod cychwynnol yn Ebrill – Mai 2019		Aelodau Bwrdd o grwpiau gwarchodedig yn teimlo eu bod yn cael cymorth ac wedi'u grymuso.
4	Gwneud yn siŵr bod pob Cadeirydd Bwrdd yn cael cyfle i sicrhau “cyfaill beirniadol”, neu i ddatblygu ffyrdd eraill o gael adborth a her ynghylch sut mae ei Fwrdd yn gweithio mewn cysylltiad â materion amrywiaeth a chynhwysiant. Dylid trin unrhyw adborth yn gyfrinachol i'r Bwrdd a'i ddefnyddio i ategu'r dysgu.				
a	Mae rhai Byrddau eisoes yn defnyddio cyfleustra hwylusydd annibynnol a/neu gyfaill beirniadol i gefnogi eu datblygiad. Gellid adeiladu ar hyn drwy ofyn i'r hwylusydd roi adborth blynyddol i'r Bwrdd ar ddeinamig ei Fwrdd, ar sail gyfrinachol, i'w helpu i ddysgu ac i wella. Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i alluogi Aelodau Bwrdd i gyfnewid yr hyn maen nhw wedi'i ddysgu â'u cymheiriaid.	Academi Wales, Cadeiryddion a'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus i nodi hwyluswyr addas ar gyfer contract yn ôl y gofyn y bydd Byrddau'n ei gomisiynu. Bob blwyddyn, y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i ddod o hyd i le i Fyrddau gyfnewid eu profiadau a'r hyn maen nhw wedi'i ddysgu wrth reoli amrywiaeth a chynhwysiant.	Erbyn Ebrill 2020		Cadeiryddion Bwrdd yn gallu cael myfyrdodau annibynnol ar sut mae eu Bwrdd yn gweithredu'n ymarferol – mewn cysylltiad ag amrywiaeth yn benodol. Lle i Gadeiryddion gyfnewid eu profiadau o reoli amrywiaeth.
5	Dylai amcan cydraddoldeb fod yn rhan o gynllun datblygu pob aelod Bwrdd.				
a		Cadeiryddion i sicrhau hyn.			





Nod 5: Cryfhau'r arweinyddiaeth

Pwrpas: Sicrhau ymrwymiad parhaus Gweinidogion, Cadeiryddion, uwch weision sifil ac aelodau Bwrdd i greu system penodiadau cyhoeddus fwy teg, agored a thryloyw.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
1	Gweinidogion i osod a chytuno ar amcanion amrywiaeth a chynhwysiant i'w Cadeiryddion, ac i gynnal trafodaethau ar gyfraniadau sefydliad pob Cadeirydd i uchelgais Cymru gyfan am ragor o amrywiaeth a chynhwysiant. Dylai Cadeiryddion sicrhau cynlluniau clir ar gyfer olyniaeth er mwyn ategu hyn.				
a	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i gynorthwyo Cadeiryddion gyda data ar gyfer eu Bwrdd a sut mae gosod targedau priodol ac uchelgeisiol i'w Bwrdd.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i roi cymorth gyda'r data. Cadeiryddion i gytuno ar eu targedau eu hunain.	Erbyn Ebrill 2020		Yr holl Cadeiryddion i gael y cyfle i osod targedau amrywiaeth i'w Byrddau.
b	Cadeiryddion i sicrhau cynllun olyniaeth cadarn.	Cadeiryddion i arwain a rhannu'r cynlluniau â'r Tîm Penodiadau Cyhoeddus.	Erbyn Ebrill 2020		Mae gan bob Bwrdd gynllun olyniaeth.
2	Y cabinet i ymgynghori ar dargedau ar gyfer pobl anabl a BAME pan fydd y wybodaeth sylfaenol am Fyrddau presennol ar gael. Dylid dilyn hyn gyda thargedau ar gyfer grwpiau eraill ym mlynnyddoedd diweddarach y strategaeth.				
a	Gweler Nod 1 ar ddata – y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i nodi data cadarn er mwyn i Weinidogion wneud penderfyniadau, a mynd ati i ymgynghori ar dargedau ar gyfer yr holl grwpiau gwarchodedig ac ar gyfer grwpiau economaidd-gymdeithasol sy'n cael eu tangynrychioli.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi.	Erbyn diwedd Mawrth 2020		Os cytunir ei fod yn ddoeth, Gweinidogion i osod targedau realistig ar draws yr holl Fyrddau sy'n cael eu rheoleiddio yng Nghymru.
3	Dylai pecyn hyfforddi a datblygu ar amrywiaeth a chynhwysiant, gan gynnwys addasiadau rhesymol, Hyderus o ran Anabledd, a'r model cymdeithasol o anabledd, fod ar gael i Weinidogion, Cadeiryddion, uwch weision sifil, partneriaid busnes, ysgrifenyddion Bwrdd, staff allweddol yn Llywodraeth Cymru, ac ati.				
a	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a phartneriaid cydraddoldeb i nodi a chyflenwi darparwyr addas i gyflawni ymyriadau datblygu mewn cysylltiad â chydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, Hyderus o ran Anabledd a'r model cymdeithasol o anabledd i Weinidogion, Cadeiryddion, uwch weision sifil, partneriaid busnes, Ysgrifenyddion Bwrdd, a staff allweddol yn Llywodraeth Cymru ac ati.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus ac Academi Wales.	Erbyn Mai 2019		Gweinidogion, uwch weision sifil a Chadeiryddion i gael mynediad i hyfforddiant o safon ar amrywiaeth a chynhwysiant.

Rhif	Cam Gweithredu	Pwy	Pryd	Allbwn	Canlyniad
b	Gweithio gyda sefydliadau cydraddoldeb i nodi mentoriaid addas, a'u cysylltu â Chadeiryddion i gynnig mentora o chwith gyda phobl o grwpiau gwarchodedig iddynt.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus a sefydliadau cydraddoldeb.	Erbyn Mehefin 2019		Cadeiryddion profiadol i gael cyfle i ymgymryd â mentora o chwith.
4	Uwch weision sifil, aelodau panel annibynnol a Chadeiryddion i gael hyfforddiant ar arferion recriwtio teg.				
a		Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i gomisiynu a galluogi hyfforddiant – cynnwys staff y Tîm Penodiadau Cyhoeddus, Ysgrifenyddion Bwrdd a phobl allweddol eraill.	Medi 2020		Aelodau panel allweddol wedi cael hyfforddiant ar yr arferion recriwtio a dethol gorau.
5	Gweinidogion ac uwch arweinwyr i archwilio a chefnogi'r syniad o ychwanegu Parch fel (i bob pwrpas) "8fed Egwyddor Nolan", gan egluro ei hystyr a'i phwysigrwydd, fel ffordd o ddangos ein hymrwymiad hirdymor lefel uchel i ddidwylledd a thryloywder mewn penodiadau cyhoeddus.				
a	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i nodi'r broses ar gyfer trafod ychwanegu 'Parch' at Egwyddorion Nolan, ac i wneud argymhellion i Weinidogion.	Y Tîm Penodiadau Cyhoeddus i wneud argymhellion i Weinidogion.	Mehefin 2019		Gweinidogion wedi ystyried gwerth ychwanegu Parch at Egwyddorion Nolan.

